



Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer  
Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru  
Ymateb gan Dyfodol i'r Iaith

Chwefror 2013

# Ymateb gan Dyfodol i'r Iaith

Mae Dyfodol i'r iaith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles yr iaith Gymraeg. Nod y mudiad yw dylanwadu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar sylwedd a chynnwys polisiâu cyhoeddus a deddfwriaeth er mwyn hybu twf a ffyniant y Gymraeg ym mhob maes polisi. Bydd yn gweithredu er budd Cymru a'i phobl, gan ennill cefnogaeth a pharch i'r iaith a sicrhau bod y Gymraeg yn fater byw ar yr agenda gwleidyddol.

Mae Dyfodol i'r iaith yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r Ddogfen Ymgynghori: Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Gallwn groesawu hanfod y Fframwaith ddrafft fel cam pwysig i sicrhau lles defnyddwyr gwasanaeth yng Nghymru.

Serch hynny, rydym yn siomedig tu hwnt nad oes unrhyw gyfeiriad yn y ddogfen at faterion yn ymwneud â iaith. Gwelwn mai nod y *fframwaith yw disgrifio a mesur lles drwy ddefnyddio nifer o ddatganiadau canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Y datganiadau canlyniadau hyn yw'r meysydd allweddol lle gall gwasanaethau cymdeithasol wneud gwahaniaeth i bobl a'u bywydau.*

Yn y ddogfen, diffinir lles fel:

- (a) iechyd meddwl a chorfforol a lles emosiynol*
- (b) diogelu rhag niwed ac esgeulustod*
- (c) cyfranogiad mewn addysg, hyfforddiant neu hamdden*
- (ch) cydberthnasau domestig, teuluol a phersonol*
- (d) cyfraniad i'r gymdeithas*
- (dd) sicrhau hawliau*
- (e) lles cymdeithasol ac economaidd*

*Mewn perthynas â phlentyn, mae lles yn cynnwys*

- (a) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol*

*(b) ystyr "welfare" at ddibenion Deddf Plant 1989*

*Mewn perthynas ag oedolyn, mae lles yn cynnwys*

- (a) rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd*

*(b) cyfranogiad mewn gwaith*

Rhaid ystyried anghenion iaith siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yng nghyd-destun mesur lles ac ansawdd gwasanaeth. Rydym yn argymhell fod angen gwneud anghenion iaith yn hysbys, yn hytrach na chymryd yn ganiataol y byddant yn amlwg o fewn cyd-destun sy'n sôn am ansawdd. Mae ystyried ac ymateb i anghenion iaith siaradwyr Cymraeg yn allweddol i greu gwasanaethau llesol ac o safon uchel.

Dyma atebion i'r cwestiynnau asy'n cael eu cynnwys yn yr Ymgynghoriad:

**1. A fydd y dull hwn yn rhoi fframwaith a fydd yn ein helpu i gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol?**

Bydd

## **2. Beth ddylai safon ansawdd ei gynnwys yn eich barn chi? A ddylai'r rhain gael eu llunio ar gyfer y person neu'r gwasanaeth?**

Dylai'r safonau anelu at wella gwasanaeth ar lefel yr unigolyn, a datgan yn glir beth yw'r goblygiadau i'r gwasanaeth. Ar y gwasanaeth mae'r cyfrifoldeb am wella gwasanaeth.

Mae angen gosod safon benodol yn ymwneud â darparaieth ieithyddol briodol. Yng Nghymru, mae hyn yn golygu fod angen sicrhau gwasanaethau a gweithdrefnau dwyieithog, gan fod angen trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Argymhellwn dylid fod safon yn ymwneud â chynnig gwasanaeth dwyieithog neu Gymraeg mewn modd amserol, ac yn llorweddol, h.y. ar draws pob gwasanaeth. Mae profiad yn dangos nad yw dinasyddion sydd angen gwasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog yn cael eu cynnig fel mater o gwrs, fel y dylai fod, a'u bod yn aml yn swil i ofyn am hynny. Mae hyn yn aml oherwydd diffyg gwybodaeth neu ddealltwriaeth ar ran darparwyr. Dylid yn ogystal felly sicrhau bod y cwestiwn o iaith yn cael ei godi ar y cyswllt cyntaf gyda dinasyddion, a bod hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn orfodol i ddarparwyr. Mae Mwy Na Geiriau (Llywodraeth Cymru, 2012) yn argymhell mai ar y gwasanaeth mai'r cyfrifoldeb i gynnig gwasanaeth, yn hytrach na disgwyl i'r dinesydd bregus ofyn am hyn.

Argymhellwn gofnodi'r ieithoedd a ddefnyddir gan y claf/cleient fel rhan o'r wybodaeth personol sy'n rhan o lythyr cyfeirio (hynny yw: enw, cyfeiriad, dyddiad geni, rhif ysbyty, ieithoedd a ddefnyddir). Mae modd felly cynllunio natur ieithyddol gwasanaeth ymlaen llaw, ac ymateb i glaf/gleient sy'n defnyddio Cymraeg/Saesneg yn ôl y wybodaeth a rennir wrth gyfeirio, gyda staff sydd hefyd yn ddwyieithog.

## **3. A oes unrhyw sefydliadau neu unigolion allweddol eraill y mae angen eu cynnwys yn y gwaith hwn yn eich barn chi?**

Sicrheir barn siaradwyr Cymraeg am wasanaethau drwy gysylltu yn benodol â sefydliadau a mudiadau Cymraeg. Rydym yn argymhell felly eich bod yn ymgysylltu gyda Mudiadau Dathlu'r Gymraeg.

Argymhellwn hefyd ymgysylltu gyda Thasglu'r Gymraeg mewn Gwasanaethau Iechyd a Gofal, o dan Gadeiryddiaeth y Diprwy Weinidog, er mwyn sicrhau gosod safonau priodol a dilys.

## **4. A ydych yn gwybod am unrhyw fframweithiau y dylid eu hystyried?**

Dylid ystyried Mwy Na Geiriau: Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2012) ar gyfer sicrhau fod anghenion iaith Gymraeg defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hystyried.

## **5. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltiedig nad ydym wedi'u hateb, rhowch wybod i ni.**

Ystyriwn fod angen gosod safon benodol ar gyfer diwallu anghenion iaith siaradwyr Cymraeg yn hytrach na chymryd yn ganiataol fod anghenion iaith yn cael eu diwallu wrth osod safonau am ansawdd gwasanaeth. Yn ein profiad ni, rhaid bod yn hysbys ynglyn â hyn, a pheidio dibynnu ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg yn unig.